# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 6

AMRYWIOL AC ATODOL

### 53 Diwygiadau canlyniadol etc

(1) Mae gan Atodlen 1 effaith i wneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn cysylltiad â Rhan 4.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud y darpariaethau hynny sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru at ddibenion cyffredinol y Mesur hwn, neu at unrhyw ddibenion neilltuol yn y Mesur hwn, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Mesur hwn neu gan reoliadau o dan adrannau 45 a 46 neu er mwyn rhoi llawn effaith i'r darpariaethau hynny.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn gorchymyn o dan is-adran (2) yn cynnwys darpariaeth i ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu cymhwyso unrhyw ddarpariaeth mewn–

(a) unrhyw Deddf Seneddol neu unrhyw un o Ddeddfau neu Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys y Mesur hwn); a

(b) is-ddeddfwriaeth.

(4) Yn yr adran hon mae i'r term “is-ddeddfwriaeth” yr ystyr sydd i “subordinate legislation” yn Neddf Dehongli 1978.